

CYFARFOD	Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth
DYDDIAD	9fed Ebrill 2019
PWNC	Adroddiad blynyddol gan y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth ar ran y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth yng nghyswllt cefnogaeth i aelodau
PWRPAS	Cyflwyno drafft o'r adroddiad a fydd i'w gyflwyno i'r Cyngor Llawn ym mis Mai 2019 yn amlinellu'r gefnogaeth sydd wedi ei ddatblygu ac wrthi'n cael ei ddatblygu ar gyfer aelodau.
AWDUR	Geraint Owen, Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth

1. Cyflwynir isod ddrafft o'r adroddiad sydd i'w chyflwyno i'r Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ym mis Mai 2019. Dan y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaidd yn gyfrifol am faterion penodol (dan Adran 11), fel a ganlyn:
 - Cyflawni rôl yr awdurdod lleol i benodi Pennaeth Gwasanaethau Democratiaidd
 - Adolygu'r gefnogaeth sydd ar gael yng nghyswllt staff, adeiladau ac adnoddau eraill sydd ar gael i'r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaidd, er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol ar gyfer gofynion y rôl
 - Cynhyrchu adroddiad, o leiaf pob blwyddyn, i'w chyflwyno i'r Cyngor Llawn yng nghyswllt cefnogaeth i Aelodau.
2. Mae'r adroddiad ychydig yn wahanol eleni – yn fwy cryno. Mae'n canolbwyntio ar y datblygiadau a wnaethpwyd yn ystod y flwyddyn yn hytrach nag amlinellu'r holl gefnogaeth sydd ar gael i aelodau, sy'n gallu bod yn ail adroddus.
3. Fe welwch o'r adroddiad drafft fod rhai darnau yn parhau i fod angen eu llenwi, a bydd angen diweddarau rhai elfennau yn sgil trafodaethau eraill.
4. Rwy'n parhau i bwysleisio fod yn rhaid wrth ddeialog agored gyda chi fel Aelodau etholedig er mwyn sicrhau fod y gefnogaeth a ddarperir i chi yn ateb eich gofynion ar gyfer y rôl ac felly rwy'n eich annog i gysylltu gyda mi neu'r Cadeirydd i godi unrhyw faterion.
5. Yn ogystal, dymunaf ddiolch i holl aelodau'r Pwyllgor am eich cefnogaeth dros y misoedd diwethaf ac edrychaf ymlaen i gyd-weithio gyda chi ymhellach dros y misoedd a'r blynyddoedd i ddod.



ADRODDIAD BLYNYDDOL Y
PENNAETH
GWASANAETHAU
DEMOCRATIAETH
(2018-19)

- Cefnogaeth i Aelodau
Etholedig Gwynedd



RHOI POBL GWYNEDD YN GANOLOG I BOPETH RYDYM YN EI WNEUD • PUTTING THE
PEOPLE OF GWYNEDD AT THE CENTRE OF EVERYTHING WE DO

RHAGAIR

Mae adolygu'r gefnogaeth sydd ar gael i Aelodau etholedig er mwyn cyflawni y rôl yn rhan greiddiol o fy ngwaith i, ac mae mewnbwn a chefnogaeth aelodau y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth yn fy nghynorthwyo i gyda'r gwaith pwysig yma.

Yn dilyn blwyddyn gyntaf brysur iawn yn 2017/18 yn sgil etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2017, yn annatod mae 2018/19 wedi bod rhywfaint mwy sefydlog, gyda chyfle i adlewyrchu rhywfaint ar y gefnogaeth sy'n cael ei gynnig. Unwaith eto eleni, rwy'n annog unrhyw aelod sydd eisiau trafod y gefnogaeth sydd ar gael i gysylltu gyda mi neu Gadeirydd neu aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth yn ddi-oed.

Mae'n bleser gennyf gyflwyno adroddiad blynyddol i Aelodau Cyngor Gwynedd. Mae'r adroddiad ychydig yn wahanol eleni, yn canolbwyntio ar ddatblygiadau 2018/19 a'r hyn sydd i'w ddatblygu yn 2019/20 yn hytrach nag amlinellu'r holl ystod cefnogaeth sydd ar gael.

Unwaith eto, rwy'n diolch yn fawr i bawb am eu mewnbwn ac yn edrych ymlaen at gydweithio dros y blynyddoedd i ddod.



A handwritten signature in black ink that reads "Iwan Owen". The signature is written in a cursive style with a long, sweeping tail on the final letter.

**Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth,
Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol**

Beth sydd wedi digwydd yn 2018/19?

Rydym yn parhau i fod yn darparu'r holl gefnogaeth arferol, sy'n cynnwys:

- ✓ Trefnu, cyhoeddi a chofnodi cyfarfodydd y Cyngor – yn amserol ac i safon uchel yn gyson. Mae 97% o raglenni yn cael eu cyhoeddi yn electroneg 5 diwrnod gwaith clir gan y Cyngor.
- ✓ Cydymffurfio gyda gofynion Panel annibynnol Cymru ar gydnabyddiaeth ariannol gan sicrhau talu Cyflogau a threuliau aelodau yn amserol.
- ✓ Cefnogaeth wleidyddol i'r grwpiau gwelidyddol cymwys
- ✓ Adolygu'r cydbwysedd gwleidyddol yn unol â'r gofyn
- ✓ Gwe-ddarlledu yn unol â'r rhaglen waith
- ✓ Cynnal a chefnogi rhaglen hyfforddiant eang ar gyfer yr holl aelodau, gan gynnwys sesiynau 1-1 pan fo'r angen
- ✓ Cynnig sesiynau 1-1 i aelodau i drafod eu datblygiad personol
- ✓ Cefnogaeth Technoleg Gwybodaeth trwy'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth
- ✓ Symleiddwyd ein proses o greu adroddiadau blynyddol gan aelodau, a gobeithio y bydd cynnydd pellach eto eleni

Yn ogystal, hoffwn dynnu eich sylw at y prosiectau penodol a nodir isod:

Ymgynghori gydag aelodau etholedig:

Dros gyfnod yr haf 2018 gofynnwyd i'r holl Aelodau am eu barn ynghylch y gwasanaeth a ddarperir gan y Tîm Gwasanaethau Democratiaeth, yn ogystal a beth ellid ei wneud i wella. Cafwyd nifer o ymatebion, gyda nifer yn datgan eu bod yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth, yn arbennig y cymorth a'r gefnogaeth gan aelodau'r Tîm.

Rhodddwyd nifer o syniadau ynghylch beth ellir ei wella hefyd. Un o'r materion oedd yn cael mwyaf o sylw oedd cymorth i aelodau newydd. Mae'r materion hyn oll wedi eu nodi, a byddant yn sicr o fod yn bwydo i mewn i'r gwaith paratoi ar gyfer Etholiadau Llywodraeth Leol nesaf. Yn ogystal, nodwyd llfeydd i wella gyda'r Porth Aelodau (gweler isod), sylwadau ynghylch hyfforddiant (gweler isod) a sylwadau ynghylch y ddarpariaeth TG (gweler isod)

Symud at Office 365:

Daeth i'r amlwg fod rhywfaint o rwystredigaeth yn parhau gyda'r ddarpariaeth Technoleg Gwybodaeth ar gyfer Aelodau etholedig, ac o wrando ar eich negeseuon, bu newid yn y ddarpariaeth er mwyn cwrdd ag anghenion.

Wrth symud i ddarpariaeth Office 365, mae Aelodau bellach yn gallu cael mynediad i'w cyfrif ebost aelod ac unrhyw ddogfennaeth ganddynt o unrhyw leoliad. Mae nifer wedi adrodd fod gallu cael

cipolwg ar eu ebyst ar eu ffonau symudol wedi gwneud y byd o wahaniaeth iddynt ac yn llawer iawn rhwyddach i ateb unrhyw ymholiad byr yn sydyn. Mae hefyd wedi galluogi aelodau sy'n gweithio i gael mynediad i'w cyfrif Cynghorydd o unrhyw ddyfais arall, yn ogystal a gallu defnyddio'r peiriant Surface yn ystod cyfarfodydd pwyllgorau'r Cyngor.

Yn amlwg, mae datblygiadau ym maes Technoleg yn symud yn hynod gyflym, ac felly byddwn yn parhau i roi sylw i'r maes yma. Os oes Aelod yn dymuno unrhyw gymorth pellach, cysylltwch gyda'r Tîm Technoleg Gwybodaeth ar gyfer materion technegol neu'r tîm hyfforddiant ar gyfer unrhyw gymorth wrth ddefnyddio'r teclynnau.

Porth Aelodau:

Mae defnydd o'r Porth Aelodau yn parhau yn isel. Rydym wedi ceisio parhau i godi ymwybyddiaeth aelodau o'r cynnwys, ond, unwaith eto, trwy wrando ar sylwadau aelodau, rydym yn credu fod yn rhaid newid trywydd gyda'r ddarpariaeth yma. Rydym ar ddeall gennych fod y wybodaeth sy'n cael ei ddal ar y porth yn wybodaeth sy'n angenrheidiol i chi fel aelodau (yn arbennig unrhyw aelod newydd), ond mai'r ffordd o gyrraedd y wybodaeth sy'n drwsgwl. Rydym yn gweithio ar symleiddio hyn yn gyfredol gan anelu i gyflwyno datrysiad i chi yn 2019/20.

Adolygu trefniadau craffu:

Sefydlwyd y trefniadau craffu newydd yn Mawrth 2017, gan gychwyn gweithredu'r model newydd o Fai 2017 ymlaen. Bryd hynny addawyd y byddem yn adolygu'r ddarpariaeth yn ystod 2018/19, a bu i'r gwaith hwnnw gychwyn yn Ionawr 2019. Mae'r gwaith yn parhau i fynd rhagddo ar hyn o bryd a bydd y gweithgor yn adrodd ar ganlyniadau y gwaith yn fuan.

Sesiynau Gwybodaeth Arbennig:

Mae rhannu gwybodaeth gywir yn amserol yn her y mae'n rhaid i'r Cyngor ei hwynebu, ac mewn ymgais i geisio rhannu gwybodaeth gyda'r holl aelodau cynhaliwyd nifer o sesiynau rhannu gwybodaeth ar bynciau penodol eleni. Roedd rhai o'r sesiynau wedi eu hadnabod trwy'r drefn craffu, ble roedd ymdeimlad fod gwybodaeth am y maes yn berthnasol i'r holl aelodau ac felly trefnwyd sesiynau penodol ee diweddariadau gyda'r cais TwF economaidd Gogledd Cymru, datblygiadau byd Addysg a'r hyn oedd yn cael ei wneud i baratoi am Brexit. Yn ogystal, trefnwyd sesiynau penodol gogyfer yr arbedion, sesiynau a gynhaliwyd ar draws y Sir i'r holl aelodau.

Trefniadau anwytho a chefnogaeth i'r Aelodau Cabinet newydd

Rydych yn ymwybodol fod dau Aelod Cabinet newydd wedi eu penodi o Ebrill 1af 2019. Rydym wedi datblygu rhaglen anwytho ar gyfer yr aelodau newydd yn sgil siarad gydag aelodau cabinet eraill. Rydym yn llongyfarch y ddau aelod ac yn dymuno yn dda iddynt yn eu rolau newydd.

Rhesymoli niferoedd cyfarfodydd

Wrth adolygu gwaith y pwyllgor ers Mai 2017, daeth Aelodau'r pwyllgor i gasgliad mai doeth fyddai lleihau'r niferoedd cyfarfodydd a defnyddio'r amser i ddatblygu cefnogaeth i aelodau. Yn sgil hyn, bydd y pwyllgor yn cyfarfod dair gwaith yn hytrach na phedair gwaith yn ystod 2019/20.

Beth sydd ar y gweill ar gyfer 2019/20?

Fodd bynnag, nid da lle gellir gwell. Mae lle i wella yn barhaus, ac mae'r cynlluniau isod ar y gweill o ran gwella'r ddarpariaeth i Aelodau Etholedig yn ystod 2019/20.

Prosiect Amrywiaeth:

Rydym yn parhau yn ymwybodol nad yw aelodaeth y Cyngor yn adlewyrchu trawsdoriad poblogaeth y Sir. Mae is-grwp o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth wedi ei sefydlu eisoes i geisio edrych ar ffyrdd o annog mwy o bobl ifanc, merched, yr anabl a rhai o gefndir lleiafrifol i ystyried sefyll i fod yn Gynghorwyr. Bydd y gwaith yma yn bwrw ymlaen yn ystod 2019/20.

Porth Aelodau:

Nodwyd eisoes nad yw defnydd y porth yn uchel, ond fod aelodau wedi nodi fod y wybodaeth arno yn ddefnyddiol iawn. Gan ein bod yn ymwybodol fod y platform ar gyfer defnyddio'r porth aelodau ddim yn hawdd i'r defnyddwyr, y bwriad yw edrych ar sefydlu platform gwahanol sy'n llawer haws ei ddefnyddio.

Technoleg Gwybodaeth:

Nid yw'r byd technegol yn aros yn llonydd yn hir. Diau na fydd ystyriaethau technegol i'w dwyn i'n sylw yn ystod y flwyddyn.

Fel a nodais uchod, mae llawer o'r hyn sydd angen ei ddatblygu o ran cefnogaeth ar gyfer Aelodau Etholedig yn eich dwylo chi. Yn hyn o beth, gofynnaf i chi gysylltu os oes gennych unrhyw fater sydd, yn eich barn chi angen sylw neu am wella'r ddarpariaeth sydd ar gael i'r holl aelodau.